



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylchlythyr y Gwanwyn 2026

Spring Newsletter 2026



Gwanwyn 2026

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen. Mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.



Spring 2026

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it. Please feel free to share it with colleagues and friends.



Adroddiad 5-mlynedd

Mae adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg bellach wedi ei gyhoeddi a gallwch ei ddarllen yn llawn drwy ddilyn y [ddolen hon i'n gwefan](#). Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar y pum mlynedd diwethaf o safbwynt y Gymraeg, gan gynnwys dadansoddiad manwl o ystadegau'r Cyfrifiad. Mae hefyd yn cynnig tri phrif gyfle a chyfres o flaenoriaethau gweithredu ar gyfer sicrhau bod yr iaith yn ffynnu yn y dyfodol.

Gallwch hefyd wyllo animeiddiad byr sydd yn crynhoi y prif negeseuon ar [ein gwefan](#) ac os am glywed mwy, mae croeso i chi ymuno yn ein [gweminar](#) ar ddydd Gwener, 17 Ebrill.



5-year report

The Welsh Language Commissioner's 5-year report has been published and you can read it in full on [our website](#). The report reflects on the past five years from the perspective of the Welsh language, including a detailed analysis of Census statistics. It also sets out three main opportunities and a series of practical priorities to ensure that the language thrives in the future.

You can also watch a short animation that summarises the [key messages](#), and you can join a [webinar](#) on Friday, 17 April to hear more.

Cwynion am y Gymraeg: Cyfleoedd i gryfhau

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn dilyn ein llinell ymholi ddiweddar ar weithdrefnau sefydliadau wrth ddelio â chwynion am y Gymraeg.



Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyriwyd trefniadau sampl o 30 o sefydliadau sydd yn dod o dan safonau'r Gymraeg a chynhaliwyd sesiwn rhithiol ym mis Ionawr i drafod y canfyddiadau, lle bu bron i 150 o fynychwyr yn cymryd rhan.

Ar sail y gwaith, rydym wedi gallu rhannu enghreifftiau o arfer da, cynnig cyfleoedd i wella a chyflwyno argymhellion ymarferol i sefydliadau gryfhau prosesau ymhellach.

Gallwch ddarllen yr [adroddiad yn llawn](#) ar ein gwefan.

Complaints about the Welsh language: Opportunities to strengthen

We have published a report following our recent enquiry into organisations' procedures when dealing with complaints about the Welsh language.

As part of this work, the arrangements of a sample of 30 organisations that fall under the Welsh Language Standards were considered, and a virtual session was held in January to discuss the findings, with almost 150 attendees taking part.

Based on this work, we have been able to share examples of good practice, offer opportunities for improvement, and present practical recommendations for organisations to further strengthen their processes.

You can read the [full report](#) on our website.

Podlediadau maniffesto

Gydag etholiadau Senedd Cymru ar y gweill mae'r Comisiynydd wedi rhyddhau maniffesto yn nodi galwadau penodol i sicrhau twf y Gymraeg yn y dyfodol. Mae cyfres o dri phodlediad hefyd wedi eu rhyddhau sydd yn trafod ein prif flaenoriaethau mewn mwy o fanylder.

Gallwch ddarllen y [maniffesto](#) yn llawn a gwrando ar y podlediad ar ein gwefan.

Ac o sôn am bodlediadau bu Osian Llywelyn, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, hefyd yn cyfrannu at bodlediad gan swyddfa Archwilio Cymru oedd yn ystyried perthynas Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg – gallwch wrando ar y podlediad [drwy ddilyn y ddolen hon](#).



Manifesto podcasts

With the Senedd Cymru elections fast approaching, the Commissioner has published a manifesto outlining specific calls to support the growth of the Welsh language in the future. A series of three podcasts has also been released, which discuss our main priorities in more detail.

You can read the full [manifesto](#) and listen to the podcasts on our website.

Deputy Language Commissioner Osian Llywelyn has contributed to an Audit Wales podcast which considered the relationship between Artificial Intelligence and the Welsh language – you can listen to the podcast [by following this link](#).



Chwaraeon a'r Gymraeg

Mae chwaraeon yn faes pwysig i'r Gymraeg, ac yn un o'n blaenoriaethau wrth gynyddu'r defnydd o'r iaith yn enwedig ymysg ein pobl ifanc. Amlygwyd hyn yn y [gwaith ymchwil wnaethon ni gyhoeddi llynedd](#) ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

O ganlyniad cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn chwaraeon fis Rhagfyr gyda phartneriaid strategol yn y maes i drafod sut y gallwn gefnogi'r cyrff llywodraethu chwaraeon a chlybiau ar lawr gwlad i gynnig mwy o gyfleoedd yn Gymraeg.

Mae'n braf nodi bellach fod y Gymraeg, am y tro cyntaf, yn elfen graidd o [fframwaith gallu newydd Chwaraeon Cymru](#).

I gynorthwyo ymhellach rydym wedi adnewyddu ein modiwl chwaraeon ar-lein sy'n rhannu arferion gorau gyda'r sector, yn ogystal ag adnoddau defnyddiol eraill. Gallwch ddarllen a lawrlwytho'r [adnoddau](#) hyn ar ein gwefan.

Sport and the Welsh language

The use of Welsh language in sport is a priority area for us in helping to increase the daily use of the language, especially among young people. This was highlighted in [the research we published last year](#) on children's and young people's use of Welsh.

As a result, a sports roundtable meeting was held in December with strategic partners in this field of work to discuss how we can support the relevant governing bodies and grassroots clubs to offer more opportunities in Welsh.

It is pleasing to note that the Welsh language is now, for the first time, a core element of [Sport Wales' new capability framework](#). To support this further, we have updated our online sports module which shares best practice with the sector, as well as other useful resources. You can read and download these [resources](#) on our website.



Gweithdy Theori Newid

Mae gweithleoedd yn faes strategol bwysig i'r Comisiynydd, a chynhaliwyd cyfres o weithdai ar sut i ddefnyddio technegau theori newid i symud sefydliad ar hyd y continwwm defnydd iaith.

Roedd y gweithdai yn cyd-fynd â dau adnodd newydd sydd wedi eu datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf sef y [modelau polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg](#), a'r [theori newid](#). Bydd yr adnoddau yma yn cefnogi sefydliadau i greu polisïau defnydd mewnol o'r Gymraeg sy'n gadarn ac yn uchelgeisiol, ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw yn eu gwaith bob dydd, gan arwain at greu gweithleoedd naturiol ddwyieithog.



Change theory workshop

Workplaces are an important strategic area for the Commissioner, and a series of workshops was held on how to use change theory techniques to move an organisation along the language use continuum.

The workshops coincided with two new resources that have been developed over the past year: [the internal use of the Welsh language policy models](#) and the [theory of change](#). These resources will support organisations to create internal Welsh language use policies that are robust and ambitious, and to support staff to use the Welsh they have in their everyday work, leading to the creation of naturally bilingual workplaces.



Ymweliad Comisiynydd yr Wyddeleg

Braf iawn oedd croesawu Pól Deeds, Comisiynydd yr Wyddeleg newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon, a'i dîm i'n swyddfa, ynghyd â chydweithwyr o Brifysgol Ulster a Phrifysgol Queen's, Belfast. Cafwyd cyflwyniadau ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru, cwmpas eang Mesur y Gymraeg a rôl a dylanwad safonau'r Gymraeg.

Roedd yr ymweliad hefyd yn gyfle pwysig i ddangos y gwahaniaeth y mae safonau'r Gymraeg wedi ei gael ar sefyllfa'r Gymraeg a'r defnydd ohoni yma yng Nghymru, a sut y gallai'r profiad hwn gefnogi datblygiad safonau ieithyddol ar gyfer yr Wyddeleg yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan comisiynyddygybraeg.cymru neu dilynwch ni ar Facebook, Instagram a LinkedIn ac os am anfon neges atom y cyfeiriad e-bost yw cyfathrebu@cyg-wlc.cymru




Irish Language Commissioner visit

It was a pleasure recently to welcome Pól Deeds, the new Irish Language Commissioner for Northern Ireland, and his team to our office, along with colleagues from Ulster University and Queen's University Belfast. Presentations were given on the position of the Welsh language in Wales, the broad scope of the Welsh Language Measure, and the role and influence of the Welsh language standards.

The visit was also an important opportunity to show the difference that the Welsh language standards have made to the position and use of the language here in Wales, and how this experience could support the development of language standards for Irish in the future.

For more information about our work please visit our website: welshlanguagecommissioner.wales or follow us on Facebook, Instagram and LinkedIn and if you want to get in touch e-mail us on: cyfathrebu@cyg-wlc.wales





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner